

“ Fel y dangoswyd gan adroddiad ‘Diweddariad Cyflenwad Cig Eidion’ HCC ym mis Tachwedd, mae’r cyflenwad tynn o anifeiliaid ar y farchnad – yma a ledled y byd – wedi bod yn ffactor allweddol wrth ysgogi tueddiadau prisiau. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar ffigurau newydd sy’n rhoi awgrym y gallwn gael mwy o gyflenwad o wartheg ymhellach yn y dyfodol.

Glesni Phillips – Dadansoddwr Data



Mae data newydd gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn dangos bod cofrestriadau lloi yn ystod 2021 yn gryf, gyda chofrestriadau cig eidion a llaeth wedi cynyddu ers y llynedd. Cyfanswm nifer y cofrestriadau lloi yng Nghymru yn 2021 oedd 396,200 pen – 2.3% (neu 8,700 pen) yn uwch nag yn 2020, a chynnydd o 4.3% mewn cofrestriadau o’i gymharu â 2019. Yn ystod y blynyddoedd

bloc lloia mwy diffiniedig yn y Gwanwyn a’r Hydref, yn hytrach na lloia drwy gydol y flwyddyn.




**Cofrestriadau Lloi 2021 yng Nghymru +2.3% b-a-f**

diwethaf, mae cofrestriadau lloi cig eidion – yn hytrach na llaeth - wedi cyfrif am gyfran lai o gyfanswm y cofrestriadau o flwyddyn i flwyddyn, sef 66% o’r cyfanswm yn 2021, i lawr o 68% yn 2019.

Cynyddodd cofrestriadau lloi **llaeth** hefyd – cynnydd o 6.2% ar y flwyddyn i gyfanswm o 134,650 pen. O’i gymharu â 2019, mae hyn yn gynydd o bron i 10% yng nghyfanswm y cofrestriadau lloi llaeth yng Nghymru. Yn wahanol i’r rhaniad cymharol hyd yn oed rhwng y rhywiau yn y cofrestriadau lloi cig eidion; lloi benyw oedd yn gyfrifol am 67% o’r cofrestriadau lloi llaeth. Mae hyn yn gynydd o 63% yn 2019 ac mae’n debygol o adlewyrchu’r defnydd cynyddol o semen rhywedd o fewn y diwydiant.

## Edrych Ymlaen


Mae’r fuches sugno yn y DU wedi bod yn tynnu’r ôl yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn 1.51 miliwn pen ym mis Mehefin 2021 – 1.7% yn is na 2020. Wrth edrych i’r dyfodol, nid yw’r fuches yn dangos unrhyw arwyddion o ail-adeiladu gan fod y nifer o heffrod dethol a laddwyd yn ystod 2021 yn parhau yn uchel o’i gymharu â’r degawd diwethaf, sef bron i 800,000 pen. Roedd cyfanswm y cofrestriadau lloi ym Mhrydain yn ystod 2021 i fyny fymryn ar 2019 (0.9%) sef 2.7 miliwn pen. Byddai’r ffigurau hyn yn awgrymu y gallai’r cyflenwad i farchnad ddomestig y DU gynyddu yn y tymor hwy wrth i’r anifeiliaid hyn aeddfedu a dod i’r farchnad.



### Cofrestriadau lloi yng Nghymru (2021):

- Lloi cig eidion benyw +0.4% blwyddyn ar flwyddyn
- Lloi cig eidion gwryw +0.2% blwyddyn ar flwyddyn
- Lloi llaeth benyw +9.1% blwyddyn ar flwyddyn
- Lloi llaeth gwryw +0.7% blwyddyn ar flwyddyn

O edrych ar gofrestrïadau lloi **cig eidion** yn unig; roedd lloi gwryw a benyw gyda’i gilydd wedi cynyddu 0.3% ar y flwyddyn, ac i fyny 1.8% o’i gymharu â 2019. Lloi gwryw oedd yn gyfrifol am y mwyafrif (51%) sy’n duedd barhaus a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu cynnydd sylweddol o 4.5% yn nifer y cofrestriadau yn ystod Chwarter 3 (C3) 2021, ond roedd cofrestriadau yn ystod C3 yn debyg i’r cyfartaledd o 5 mlynedd. Cynyddodd nifer y cofrestriadau a gofnodwyd yn ystod C1 a C4 2021 o 8.4% a 3.9%, yn y drefn honno, o’i gymharu â’r cyfartaledd o 5 mlynedd. Byddai hyn yn awgrymu y bu cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr yng Nghymru sydd â



Ffynhonnell: BCMS

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 12 Chwefror

Pris cyfartalog gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **234.9c/kg**. Roedd hyn:

- +2.9c ar yr wythnos flaenorol,
- +23c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach, a
- +41c na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017- 21: 193.6c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **403.9c/kg**. Roedd hyn:

- -2.0c ar yr wythnos flaenorol,
- +31.6c yn uwch na lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 403.0c/kg (-2.0c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 385.2c/kg (-3.9c), a gwartheg difa yn 282.2c/kg (+6.5c).

### Trwybwn - Ionawr 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 212,900 pen – i lawr 7% ar y flwyddyn, a 11% yn is na'r un cyfnod yn 2020.
- Cyfanswm trwybwn gwartheg dethol = 152,700 pen - i lawr 10% ar y flwyddyn.  
 > bustych -12%, heffrod -9%, a teirw ifanc -1%.
- Trwybwn gwartheg llawn dwf = 55,600 pen - i lawr 2% ar y flwyddyn.



**Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU**

71,500 tonnelli  
-8% b-a-f

Ionawr '22



## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 12 Chwefror

Pris cyfartalog SQQ pwysau byw ŵyn dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **262.1c/kg**. Roedd hyn:

- +2.4c ar yr wythnos flaenorol,
- -10.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach, a
- bron 48c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd o 214.7c/kg.


Prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru ar gyfartaledd oedd **79.40/pen**. Roedd hyn:

- +2.20 ar yr wythnos flaenorol, a
- +8.80 yn uwch na lefelau blwyddyn yn gynharach.

Cyfartaledd prisiau cig oen pwysau marw Prydain Fawr oedd 587.9c/kg (-5.4c ar y flwyddyn).

### Trwybwn - Ionawr 2022

- Cyfanswm y defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 6% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 908,700 pen – i fyny 4% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass ŵyn cyfartalog = 20.6kg (0.6kg yn drymach).
- Trwybwn mamogiaid difa a hyrddod = 94,500 pen – i fyny 21% ar y flwyddyn.



**Cynhyrchiant Cig Defaid yn y DU**

21,200 tonnelli  
+9% b-a-f

Ionawr '22



## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 29 Ionawr


Roedd Pris Mochyn Cyfan (APP) Manyleb yr UE yn y DU yn **143.5c/kg**. Roedd hyn:

- +0.5c ar yr wythnos flaenorol,
- -0.5c o'i gymharu lefelau blwyddyn yn gynharach, a
- 7.3c yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 150.8c/kg).

Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod nifer o heriau o fewn y sector yn rhoi pwysau ar y farchnad – gyda chapasiti prosesu cyfyngedig mewn rhai gweithfeydd yn lleihau trwybwn. Mae ffigurau trwybwn ar gyfer mis Ionawr yn dangos bod moch trymach yn cael eu prosesu o ganlyniad i lawer yn aros ar y fferm am fwy o amser na'r disgwyl.

### Trwybwn - Ionawr 2022

- Cyfanswm trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 895,400 pen – cynnydd o +3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn hychod a baeddod = 22,800 pen – i fyny +59% ar y flwyddyn, ond yn debyg i lefelau hanesyddol.
- Trwybwn moch heb fagu = 872,600 pen – i fyny +2% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog y moch heb fagu = 94.3kg, 4kg yn drymach ar y flwyddyn (gan adlewyrchu'r ôl-groniad o foch a fu ar y ffermydd).



**Cynhyrchiant porc y DU Ionawr**

85,500 tonnelli  
+8% b-a-f

Ionawr '22

